**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**HSC(4)-04-11 papur 3**
**Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn - Cyntuno'r cylch gorchwyl**

Ynghlwm fel atodiad i'r papur hwn ceir cylch gorchwyl ddrafft ar gyfer yr ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn.

Gwasanaeth y Pwyllgorau

# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Gofal Preswyl ar gyfer Pobl Hŷn

### Cylch gorchwyl drafft ar gyfer ymchwiliad i ofal preswyl ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru

---

**Dyddiad y cyfarfod:** **28 Medi 2011**

Cynhyrchwyd y papur hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil, i'w ddefnyddio gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Stephen Boyce yn y Gwasanaeth Ymchwil
Ffôn: est. 8095
E-bost: Stephen.boyce@cymru.gov.uk

Members' Research Service

## Cyflwyniad

Yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2011, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i ofal preswyl yng Nghymru a bu'n ystyried papur cwmpasu yn ei gyfarfod ar 22 Medi 2011. Mae'r papur hwn yn nodi cylch gorchwyl drafft ar gyfer ymchwiliad o'r fath ar ôl trafod cwmpas yr ymchwiliad. Wedi i'r Pwyllgor gytuno ar y cylch gorchwyl drafft, bydd yn destun cyfnod ymgynghori o bythefnos gyda rhanddeiliaid allweddol.

## Cefndir

Bu Aelodau'r Pwyllgor mewn sesiwn friffio fer ynghylch gofal preswyl gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar 28 Gorffennaf 2011. Darparodd Llywodraeth Cymru bapur briffio cefndirol[1] cyn y cyfarfod.

Yn gynharach eleni cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur polisi[2] yn nodi ei bwriadau ar gyfer gofal cymdeithasol am y deng mlynedd nesaf, sy'n cynnwys cyhoeddi Bil Gofal Cymdeithasol yn y Pedwerydd Cynulliad. Mae'r papur yn cynnwys cynigion ar gyfer contract fframwaith cenedlaethol ar gyfer gofal preswyl; datblygu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol newydd i hyrwyddo gwella gwasanaethau; a diwygiadau i'r drefn o reoleiddio ac archwilio darparwyr gofal cymdeithasol, a fydd angen 'trwydded i weithredu'.

Mae'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol yn sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ymchwilio i faterion yn ymwneud ag anghenion gofal a llety pobl hŷn. Cyhoeddir aelodaeth y grŵp yn hydref 2011.

## Cylch gorchwyl awgrymedig

### Ymchwilio i'r ddarpariaeth o ofal preswyl yng Nghymru a'r ffyrdd y gall fodloni anghenion presennol pobl hŷn a'u hanghenion ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys:

- **Gallu'r sector gofal preswyl i fodloni'r gofyn am wasanaethau gan bobl hŷn o ran adnoddau staffio a nifer y lleoedd a'r cyfleusterau.**
- **Ansawdd gwasanaethau gofal preswyl a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd; effeithiolrwydd gwasanaethau o ran bodloni'r amrywiol anghenion ymhlith pobl hŷn; a rheolaeth ar gau cartrefi gofal.**
- **Effeithiolrwydd trefniadau rheoleiddio ac archwilio ar gyfer gofal preswyl, gan gynnwys y cwmpas ar gyfer craffu mwy ar hyfywdra ariannol darparwyr gwasanaethau.**
- **Darpariaeth o fodelau gofal newydd sy'n dod i'r amlwg**

[1] Llywodraeth Cymru *Gofal preswyl: papur briffio ar gyfer cyfarfod o'r pwyllgor craffu ar iechyd a gofal cymdeithasol 28 Gorffennaf 2011* [fel ar 2 Medi 2011].

[2] Llywodraeth Cymru *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith ar gyfer Gweithredu* (2011) [fel ar 5 Medi 2011]

- **Modelau ariannu a pherchnogaeth amgen fel y rheini a gynigir gan y sector gydweithredol a chydfuddiannol**